FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

AMODAU GORCHWYL

Teitl

1. Bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei adnabod fel Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam.

Rolau a Chyfrifoldebau

2. Pwrpas Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yw darparu cyngor i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill fel sy'n briodol. Bydd yn cynghori o ran gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal mewn ffyrdd a fydd yn ystyried rheolaeth tir, diddordebau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgol.

3. Bydd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yn cyflawni'r rôl hon drwy gynghori ar faterion o berthnasedd lleol penodol, gan gynnwys:

   (a) cefnogi gweithrediad yr hawl newydd i fynediad i gefn gwlad agored;

   (b) gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy;

   (c) datblygu strategaethau sy'n diwallu ar gyfer pob buddiant ar dir mynediad agored;

   (ch) datblygu strategaethau hamdden a mynediad sy'n diwallu ar gyfer ystod eang o bobl yn ein cefn gwlad.

4. Bydd Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam yn gweithio i:

   (a) ddatblygu ymagwedd adeiladol a chynhwysol at wella mynediad i gefn gwlad;

   (b) parchu amgylchiadau lleol a buddiannau gwahanol tra'n gweithredu o fewn cyfarwyddyd cenedlaethol;

   (c) rhoi cyngor ar faterion o egwyddor ac arfer da sy'n gyson â chyfarwyddyd cenedlaethol;

   (ch) cael trafodaethau adeiladol a cheisio cytundeb, lle'n bosibl;

   (d) lle na cheir cytundeb, esbonio natur y barnau gwahanol ac awgrymu sut gallent gael eu datrys.

Wrth gyflawni'r gwaith uchod, bydd y Fforwm yn ystyried:

(a) anghenion rheolaeth tir;

(b) y dymuniad i warchod prydferthwch naturiol yr ardal, gan gynnwys y blodau, ffawna a nodweddion geolegol a ffisiograffegol;

(c) cyfarwyddyd a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o bryd i'w gilydd;

(ch) cyswllt priodol gydag awdurdodau lleol cyfagos, fforymau mynediad lleol a rhai eraill â buddiant.

Aelodaeth

5. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

(a) cadeirydd ac is-gadeirydd a etholir yn unol â Rheoliadau Fforymau Mynediad Lleol;

(b) lleiafswm o 10 a mwyafswm o 20 aelod arall a ddylai gynnwys cynrychiolaeth gytbwys o (i) ddefnyddwyr mynediad hamdden a (ii) pherchnogion a phreswylwyr tir – ynghyd â chynrychiolwyr o fuddiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal.

6. Bydd yr aelodaeth yn:

(a) gytbwys i atal unrhyw un buddiant neu gyfuniad o fuddiannau rhag cymryd drosodd;

(b) cynrychioli croes-doriad o fuddiannau'r ardal;

(c) byw neu'n gweithio yn yr ardal ac â gwybodaeth gadarn o'r ardal.

7. Disgwylir i aelodau:

(a) gefnogi pwrpas cadarnhaol y fforwm;

(b) cydymffurfio â'r adrannau sy'n perthyn i fforymau mynediad lleol yn Neddef Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac unrhyw reoliadau a'r amodau gorchwyl hyn;

(c) dangos ymroddiad i gyflawni amcanion y Fforwm Mynediad Lleol drwy weithio'n adeiladol gydag aelodau eraill;

(ch) bod yn gallu rhoi o'u hamser i ddod i gyfarfodydd a rhwydweithio tu allan i gyfarfodydd;

(d) cael digon o brofiad o fynediad i gefn gwlad yn yr ardal i allu wneud cyfraniad call ac adeiladol i wella'r ddarpariaeth;

(dd) bod yn gallu gweithio gydag ystod eang o grwpiau diddordeb.

Ysgrifennydd

8 Bydd gan Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam ysgrifennydd a benodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a fydd yn gyfrifol am:

(a) gefnogi cadeirydd y fforwm;

(b) sicrhau y sefydlir ac y cynhelir y Fforwm yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rheoliadau fforymau mynediad lleol a'r amodau gorchwyl hyn;

(c) rheoli unrhyw adnoddau sy'n perthyn i'r gwaith;

(ch) trefnu a hybu cyfarfodydd, gan gynnwys trefnu cludo papurau a gwybodaeth i aelodau'r Fforwm a'r cyhoedd;

(d) cynhyrchu cofnodion o gyfarfodydd y Fforwm.

Cyfarfodydd

9 Cynhelir cyfarfodydd o leiaf dwy waith y flwyddyn ac yn amlach yn ôl yr angen, i'w cytuno gan y Fforwm a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

10 Bydd y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Ysgrifennydd yn cytuno ar agendâu – er y gall unrhyw aelodau awgrymu eitemau i'w hystyried.

11 Hysbysebir cyfarfodydd ymlaen llaw ac fe'u cynhelir yn gyhoeddus.

12 Yn dilyn cais gan aelod neu aelodau, gall y Cadeirydd benderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau penodol am resymau o breifatrwydd personol neu gyfrinachedd masnachol.

13 Bydd agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Fforwm a'i is-bwyllgorau ar gael i'r cyhoedd.

14 Bydd y Cadeirydd yn gwahodd gwylwyr/ymgynghorwyr i'r cyfarfod fel sy'n briodol.

15 Gall gwylwyr/ymgynghorwyr gyfrannu at gyfarfodydd yn ôl doethineb y Cadeirydd.

16 Bydd gan un cynrychiolydd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac unrhyw swyddog o'r awdurdod penodi statws gwylwyr fel mater o drefn.

17 Os bydd angen, sefydlir pwyllgorau gan y Cadeirydd ar ôl cytuno gyda'r aelodau.

18 Bydd y Cadeirydd a'r aelodau'n cytuno ar drefniadau cadeirio, aelodaeth ac amodau gorchwyl.